

(llun: Chris Brown)

# Y Sgwrs Greadigol i Gymru Gyfan
# Yr hyn a glywsom

Medi 2018

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cyflwyniad

I'n helpu i gynllunio at y dyfodol, rydym wedi bod yn darganfod barn pobl ar beth yw'r materion allweddol y mae angen inni fynd i'r afael â hwy. Yn gynharach yn y flwyddyn y cyfarfuom â rhyw 435 o bobl mewn 12 sesiwn ledled Cymru. Casglasom farn ar-lein hefyd. Dymunwn ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael o'u hamser a'u hegni.

Mae rhai o'r rheiny y buom yn siarad gyda hwy yn gyfarwydd â'n gwaith. Ond rydym hefyd wedi cynnwys rhai sydd heb gyswllt rheolaidd â Chyngor y Celfyddydau, yn arbennig pobl ifainc a rhai o gefndiroedd a chymunedau diwylliannol amrywiol.

Gwrandawsom yn astud ar sgwrs gyfoethog a bywiog. A gwnaed argraff arnom gan yr egni a'r ymrwymiad a welsom. Mae pobl yn gwerthfawrogi'r celfyddydau, ond yn teimlo nad oes digon yn cael ei wneud i sicrhau eu bod ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Eu her i ni yw gwneud i hynny ddigwydd.

Gallai'r rhan fwyaf o'r hyn a glywsom gael ei grwpio yn ôl chwe neges allweddol:

1. Sut gallwn siarad am y celfyddydau?
2. Gwella ein hymagwedd at Gyrhaeddiad, Amrywiaeth a Chydraddoldeb
3. Ysbrydoli pobl ifainc ac ymgysylltu â hwy
4. Annog rhwydweithio a chreu cysylltiadau
5. Creu Llwybrau
6. Adnewyddu ac ailfywiogi – synnwyr newydd o fod yn agored

Yn y tudalennau a ganlyn, ehangwn ar bob un o'r chwe phennawd hwn. Wrth gwrs, anymarferol fyddai cynnwys pob sylw a wnaed, ond gobeithiwn y derbyniwch fod y canlynol yn grynodeb rhesymol o'r sgwrs yr oeddech yn rhan ohoni.

Derbyniasom ganlyniadau'r gweithdai hyn, yn ogystal â darnau eraill o waith ymgynghori, i'n helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'n gwaith yn y dyfodol. Yn y tudalennau a ganlyn, rydym yn cynnwys llawer o'r sylwadau a glywsom, a hynny heb eu golygu. A ninnau'n ddatblygwr ac ariannwr y celfyddydau, nodasom yr hyn y gallai pobl ddisgwyl gennym mewn Cynllun Corfforaethol newydd, *Er budd pawb*.

David Alston
Cyfarwyddwr y Celfyddydau
Cyngor Celfyddydau Cymru

## 1. Sut gallwn siarad am y celfyddydau?

Mae llawer o bobl yn cydnabod gwerth y celfyddydau a'r hyn y gallant gynnig i'n bywydau bob dydd. Ond nid dyma farn pawb. Clywsom y dylem fod yn gwneud mwy i "ledaenu'r gair" – dwyn fwy o berswâd yn y ffyrdd yr esboniwn fanteision mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Yn amlwg, mae rôl i Gyngor y Celfyddydau yn hyn o beth, ond hefyd yn ehangach i'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau neu'n ymwneud â'r celfyddydau. Nid eiriolaeth yn unig sydd dan sylw – taro'r drwm a chystadlu am gyllid. Y mae hefyd yn golygu lledaenu'r profiad a galluogi rhagor o bobl i ymgysylltu'n weithredol â'r celfyddydau.

Ffocws nifer o'n trafodaethau oedd "sut gall y celfyddydau wneud hyn yn well?"

### Beth ddwedodd pobl "..."

Gwelsom ddealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth llesiant Llywodraeth Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer y celfyddydau pe byddem yn adlewyrchu'r nodau llesiant:

> "Mae'r Ddeddf Iechyd a Lles yn weithredwr go iawn dros newid."
>
> "Cymdeithas iach, cymuned iach – celf mewn bywyd bob dydd – hyd yn oed os nad celf ydyw iddynt yn y lle cyntaf."
>
> "Mae wedi'i brofi bod y celfyddydau yn dda ichi, creadigrwydd, gwella llesiant. Wedi'i dalu gan y celfyddydau a gofal iechyd. Mae wedi'i brofi bod cyllid i'r celfyddydau yn arbed arian yn arbennig iechyd meddwl."

Petai llesiant wedi'i integreiddio mewn gweithgareddau yn y dyfodol, teimlai pobl fod y profiad cynhenid o fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn bwysig:

> "Profi'r broses greadigol – canolbwyntio ar helpu pobl gyda'r profiad hwn yn ogystal â'r canlyniad yn y pen draw. Os yw pobl yn ymwneud ag ef yn uniongyrchol, mae'n brofiad uniongyrchol iddynt."

Ac os ydym yn credu bod y gwerthoedd cynhenid hyn yn bwysig, **mae angen inni werthfawrogi profiad pobl o'r celfyddydau**:

> "Edrych ar symud tuag at ddata ansoddol yn hytrach na meintiol i adnabod yr hyn mae pobl yn ei brofi wrth greu celf."

Ond cawsom ein herio hefyd **i fod yn feiddgar a chymryd risgiau** os ydym yn dyheu i gefnogi'r gorau yn y celfyddydau:

> "Heb elfen o risg yn y rhaglenni cyllido, nid ydym am wybod beth fydd yn dda yn y dyfodol."
>
> "Mae'n bwysig iawn cael cyllidwr a fydd "yn mynd gyda ni" ar daith greadigol a heb fod yn rhagweld ein canlyniadau. Nid oes modd rhagweld gwir greadigrwydd."

Soniwyd yn rheolaidd am bwysigrwydd y celfyddydau. Ond roedd llawer o bobl o'r farn mai'r her fawr oedd **dod â'r celfyddydau yn fwy canolog i mewn i fywyd bob dydd pobl** mewn ffyrdd y gallant ymgysylltu â hwy a'u deall. Y mae o hyd ganfyddiad y gallai siarad am y celfyddydau fod yn fater anodd ac ymylol:

> "Mae'n ymwneud â phrif ffrydio'r celfyddydau."
>
> "Gwerth celf fel celf ac nid fel cyfrwng i gyflawni pethau eraill."
>
> "Mae canfyddiad bod y celfyddydau yn rhwystr i'r...celfyddydau."
>
> "Normaleiddio siarad am gelf – clipiau byr / sylw ar y BBC – darnau byr yn gyflwyniad i gynulleidfaoedd ddod i wybod mwy."
>
> "Y pabïau yn Nhŵr Llundain – does dim dwywaith ynglŷn ag "ai celf yw hyn?" Roedd yn taro tant gyda chynulleidfaoedd."
>
> "Mae'n bwysig ein bod yn diogelu'r Gymraeg ac mae angen i waith yn y Gymraeg deithio i leoedd eraill. ... Ond rhaid inni ei wneud yn hygyrch i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg."

Canfyddom rywfaint o rwystredigaeth bod y celfyddydau, ar adegau, **yn ymddangos yn fwy anweledig yn y bywyd cyhoeddus nag y dylent fod**. Roedd synnwyr bod prosiectau, cynlluniau a datblygiadau'n mynd rhagddynt heb fod elfen ddiwylliannol yn rhan o'r gwaith meddwl:

> "Dim cyfeiriad at ddiwylliant yng nghylch gwaith Tasglu'r Cymoedd – angen lobïo."
>
> "Cymuned y Celfyddydau o Gaerdydd a'r cymoedd i lobïo gwleidyddion ag un llais – rydym yn brwydro'r un achos!"
>
> "Mae'r celfyddydau'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd ond sut mae cael pobl i sylweddoli hyn?"
>
> "A allwn eirioli'n gilydd i greu ac adeiladu'r sector ac annog eraill o'r tu allan i'r sector i fod yn rhan o ddigwyddiadau, sioeau, agoriadau fel aelodau'r gynulleidfa a chyfranogwyr."

Er mwyn i'r celfyddydau ddod yn fwy cyffredin, mae angen inni **gynnwys eraill wrth wthio'r achos a gwneud llawer rhagor o gyflwyno'r dystiolaeth o'r hyn sy'n digwydd**:

> "Sut mae cael yr holl leisiau cywir o amgylch y bwrdd, a sut mae'u cael nhw wedyn o amgylch bwrdd y llywodraeth?"
>
> "Mae angen hwb marchnata enfawr ar y celfyddydau a'u gwerth i ni fel bodau dynol."
>
> "A allwn gefnogi gwaith sy'n digwydd gan artistiaid addawol yn ogystal â chwmnïau cenedlaethol drwy drydar, annog eraill i 'fynd i'w gweld'"
>
> "Gall prifysgolion fod yn sefydliadau partner i gynyddu'r sylfaen dystiolaeth a lobïo'r llywodraeth."
>
> "Cyfryngau a phlatfformau darlledu – sut mae modd eu defnyddio'n well?"

Cynigwyd rhai dadleuon ystyriol dros newid mwy radical, gan awgrymu bod **angen i'r systemau a'r strwythurau traddodiadol esblygu a datblygu**:

"A ddylem geisio creu rhyw lefel o sefydliad rhanbarthol o ddiwylliant i gyd-fynd â'r arfer gynyddol o ranbartholi addysg, trafnidiaeth, tai, cynllunio?"

"Rwy'n credu ein bod yn dal i ystyried hen fodelau. (Er ein bod yn greadigol) rydym yn dal i'w chael yn anodd disgrifio sut olwg allai fod ar y modelau newydd. Hawdd yw dweud 'mae angen inni newid y disgwrs' ond mae hynny'n teimlo fel model o ddiffyg."

"Iawn, cychwyn ar ddisgwrs newydd yn hytrach na chwyno am yr hen un. Ond efallai nad oes modd inni ddarlunio/disgrifio'r ffordd newydd o weithio hyd nes inni ddechrau ei wneud. Sefydlu'r amodau yn unig y mae modd inni wneud megis dwyn lleisiau gwahanol ynghyd (trawsddisgyblaethol, gwyddoniaeth, gwahanol oedrannau). Ac wedyn bydd y ffyrdd newydd yn dod i'r amlwg. Defnyddiol, efallai, fyddai mynd i edrych ar leoedd eraill, gwledydd eraill, sy'n gwneud pethau'n wahanol."

"Sut gall holl gyfleoedd y celfyddydau a diwylliant yn y cymoedd gael eu cysylltu a'u cyflwyno/darlledu i'r cymunedau fel bod pobl yn gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael yn eu hardal leol?"

"Cyflenwi'r celfyddydau i bobl lle maen nhw, mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n gyfforddus."

"Dylai enghreifftiau cadarnhaol o weithredu cymunedol a chreadigrwydd llawr gwlad gael eu dathlu a'u defnyddio yn enghreifftiau o arfer orau."

"Efallai ei fod yn golygu creu a gweithio â strwythurau gwahanol ac anghyfarwydd. Cyrhaeddiad – trafnidiaeth, gofal plant, bwyd a'r gallu i gynnig gweithgareddau/lleoedd er mwyn ymgyrraedd yn bellach – mae ar waith cymunedol angen y lefel ehangach hon o gymorth."

"Po fwyaf difreintiedig yw'r ardal, y lleiaf y gwelwch o bobl yn camu i'r adwy a chymryd cyfrifoldeb i drefnu digwyddiadau."

"Mae ethos o gamu i'r adwy mewn rhai ardaloedd – drwy fandiau pres, corau, clybiau rygbi, ond unwaith eto mae'r rhain yn arwydd bod angen i'r strwythurau fod yn iawn, waeth pa mor anffurfiol ydynt."

## 2. Gwella ein hymagwedd at Gyrraedd, Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae hyn yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor, yn awr ac i'r dyfodol.

Bu'r drafodaeth yn ein sgyrsiau'n amrywio ar draws y prif feysydd ynghylch pwy sy'n ymwneud â'r celfyddydau a beth yw'r rhwystrau i ymgysylltu. Roedd synnwyr cryf iawn bod blaenoriaeth y Cyngor yn cael ei chefnogi, ond roedd diddordeb mawr mewn deall sut gellid sicrhau ei bod yn bosibl ymwneud â'r celfyddydau ar lefel ehangach a dyfnach.

### Beth ddwedodd pobl: "…"

I rai, roedd rhai cwestiynau sylfaenol am **bwy oedd mewn sefyllfaoedd o bŵer, a sut y câi penderfyniadau eu gwneud**:

"A oes amrywiaeth yn eich sefydliad eich hun?"

Mae celf dda yn gynhwysol. Dewch 'mlaen!

"Sicrhau bod cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn fwy amrywiol a chytbwys rhwng y rhywiau."

"A ydych yn ymgysylltu â mewnfudwyr a lleiafrifoedd fel ffynonellau o ysbrydoliaeth?"

"Angen sicrhau amrywiaeth ar staff/byrddau sefydliadau."

"Rhaid i'r gymuned fod yn rhan o ddeialog ynglŷn â'r hyn y maen nhw eisiau i'w cymunedau fod."

"Mae arnom angen mwy o gynrychiolaeth o sefydliadau celfyddydol a phobl o'r dosbarth gweithiol mewn swyddi sy'n gwneud penderfyniadau."

"Beth yw'r rhwystrau? Mae National Theatre Wales wedi cynnwys dosbarth yn ei bolisi Amrywiaeth. Caniatâd i bobl dosbarth gweithiol ymwneud â chelf a chreu celf."

Wrth inni ateb y cwestiynau hyn, cawn ein hannog hefyd i **ddarganfod ffyrdd i siarad yn uniongyrchol â'r cymunedau eu hunain** am eu gobeithion a'u disgwyliadau:

> "Mae angen inni wrando ar beth mae cymunedau eisiau ac yn teimlo sydd ei angen arnynt i gyfoethogi diwylliant eu rhanbarth, ac nid gosod syniadau/prosiectau ar eu cyfer. Ni ddylai celf gael ei gollwng fel parasiwt i mewn i gymuned. Yn hytrach, dylai gael ei dylunio gan gymuned. Cysylltiadau â phartneriaid ar draws busnesau neu wasanaethau er mwyn ymgyrraedd."
>
> "Dylai fod gwe helaeth o gyfleoedd celf ledled Cymru sy'n hyrwyddo cydweithio rhwng pob math o asiantaethau cymunedol, sefydliadau, ysgolion, artistiaid."

Mae hefyd angen **gwell dealltwriaeth o amrywiaeth unigolion a chymunedau a allai fod yn gynulleidfa i'r celfyddydau**:

> "Sut ydym yn ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd? Sut ydym yn dod i wybod pa weithgarwch maen nhw eisiau?"
>
> "Newid y ffordd o feddwl sefydliadol am bwy yw ein cynulleidfaoedd – newid yn y man lle mae'r pŵer."
>
> "Rhaglen o bencampwyr cymunedol. Datblygiad proffesiynol parhaus. Dylem deimlo'n gyfforddus ynglŷn â bod yn anghyfforddus, a'r modd i wneud hynny yw drwy ein hamlygu ein hunain i'n cynulleidfaoedd a hwythau'n ein herio."

Agwedd bwysig ar hyn o bosibl yw **sicrhau bod sefydliadau'r celfyddydau'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y ceisiant eu gwasanaethu**:

> "Annog sefydliadau i fod yn debycach i'r cymunedau a wasanaethwn – byrddau, rheolwyr, artistiaid / gweithwyr creadigol ar lefel mynediad."
>
> "Pa mor debyg i'n cymunedau ydym fel sefydliadau / artistiaid? Ymgysylltu â chelf sy'n adlewyrchu eu profiadau eu hunain."

> “Ar ei gorau, mae celf yn ein galluogi i ddeall / cael golwg newydd ar fywydau a phrofiad pobl eraill – pobl y mae eu hunaniaeth a’u bywydau’n wahanol iawn i’n rhai ni, felly osgoi cynlluniau sydd wedi’u segmentu’n ormodol.”

Ond cawsom ein rhybuddio hefyd am **beryglon mabwysiadu syniad rhy syml o Amrywiaeth**:

> “Nid yw proffil y bobl y gweithiwn gyda nhw o anghenraid yn cyd-fynd â nodweddion gwarchodedig. Gwahaniaeth mewn amrywiaeth. Sut beth yw amrywiaeth mewn gwahanol ardaloedd?”

Cyfeiriwyd droeon at **newid y patrymau ariannu presennol**:

> “Daw cydraddoldeb cyfleoedd o gydraddoldeb cyllido – mae arnom angen mwy o drafodaeth am hyn.”
>
> “Caerdydd – atyniadau mawr, adeiladau, prifddinas – datblygu cynulleidfa…Beth am adfywio a’r celfyddydau mewn cymunedau llai poblog?”
>
> “Ardaloedd lle y daw Cymunedau yn Gyntaf i ben yn broblematig iawn.”
>
> “A allai unigolion sy’n gwneud cais am arian fod yn teimlo’n gyfforddus wrth ymgeisio? Annhebygol. Y rhwystr yw ei fod yn teimlo’n orgymhleth.”
>
> “Mesur gwerth. Sut i sicrhau cydraddoldeb ar draws gwahanol achosion dros y diwydiannau celfyddydol a chreadigol? Beth yw’r cyswllt rhwng y sectorau hyn, sut mae ei ddiffinio?”

Ac roedd cefnogaeth gref i’r syniad y dylai **aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru arwain (yn enwedig y cwmnïau cenedlaethol)**:

> “Mae cyfranogiad yn un o’r gofynion i Bortffolio Celfyddydol Cymru – sut gallwn froceru perthnasoedd rhwng y Portffolio a chymunedau i greu prosiectau. A all hyn fod yn un o ofynion cyllido’r Portffolio? Byddai hynny’n ein gorfodi i wneud rhywbeth anodd a pheidio â throi’n ôl at rywbeth hawdd. Mae angen i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr wybod bod modd iddynt herio’r lleoliadau.”

> "Ewch â'r Cwmnïau Cenedlaethol allan o Gaerdydd lle bynnag y bo modd a'u lleoli yn y Ddinas-ranbarth oni bai eu bod yn lleoliad-benodol."
>
> "Sut gall y Cwmnïau Cenedlaethol weithio gyda'r celfyddydau cymunedol, fel bod y <u>ddau</u> bartner yn cefnogi'r asiantaeth angenrheidiol?"
>
> "Dylai sefydliadau mawr sydd wedi'u canoli yng Nghaerdydd gefnogi sefydliadau 'lleol' yn y cymoedd. Ond peidio â sefydlu eu canghennau eu hunain – dylent weithio gyda sefydliadau sy'n bodoli eisoes ac sy'n gwneud gwaith da, yn hytrach na gwario arian ar sefydliadau a seilwaith newydd ac ati."

Awgrymwyd hefyd **y gallai rhai theatrau a chanolfannau'r celfyddydau ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd** mewn perthynas â chynllunio rhaglen a marchnata:

> "Mae angen i dai derbyn fod yn llai goddefol, a gwrando ar gynulleidfaoedd. Beth mae'r bobl eisiau, pwy, pryd? Mae angen iddo fod yn ehangach, nid siarad gyda seilos o gynulleidfaoedd."
>
> "Defnyddio gofodau y tu hwnt i leoliadau a phartneriaid eraill y tu hwnt i'r sector – y mae'r gymuned eisoes yn ymddiried ynddynt."
>
> "Pobl sydd â rhwystrau i gyfranogi. Gallai fod yn fwy defnyddiol meddwl am Farchnata... Ai gwastraff amser ydyw os yw'r un bobl yn dod o hyd ac yn debygol o ddod beth bynnag? Gwario arian ar gael pobl nad ydynt wedi ymgysylltu."

Awgrymodd llawer o bobl fod datblygu cymunedol cynaliadwy yn galw am barodrwydd i **ymrwymo ar gyfer y tymor hir**:

> "Nid yw ymyriadau tymor byr yn effeithiol."
>
> "Prosiectau hirdymor a mesur canlyniadau yn y tymor hwy."

Ac roedd pawb yn pwysleisio **pwysigrwydd datblygu sgiliau priodol i weithio mewn lleoliadau cymunedol**:

> Angen hyfforddiant i weithio mewn cymuned."

## 3. Ysbrydoli pobl ifainc ac ymgysylltu â hwy

Ddwy flynedd yn ôl, cychwynnodd Cyngor y Celfyddydau ar gywaith mawr gyda Llywodraeth Cymru – rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau. Nid syndod yw i hyn olygu i lawer o'r trafod yn ein Sgyrsiau Creadigol fod yn ymwneud ag annog, adeiladu a meithrin creadigrwydd pobl ifainc.

Bu cefnogi creadigrwydd pobl ifainc yn ymrwymiad parhaus i'n Cyngor, ond teimlwn ei bod yn bwysig rhoi sylw i farn pobl ifainc ar ddyfodol y celfyddydau yn eu bywydau.

Bu'r bobl ifainc yn gyfranwyr brwdfrydig a deallus i'n dadl.

### Beth ddwedodd pobl: "…"

Cawsom ein hatgoffa bod **pobl ifainc yn amrywiol y tu hwnt** o ran eu cefndiroedd, eu diddordebau a'u gobeithion i'r dyfodol:

> "Nid yw pobl ifainc yn byw mewn cymunedau caeedig. Maen nhw hefyd yn perthyn i gymunedau niferus – angen bod yn ymwybodol o hyn a pheidio â llunio tybiaethau ar sail ein profiad a'n gwybodaeth ni."
>
> "Ai rhieni dosbarth gweithiol allai fod yr eiriolwyr gorau dros y celfyddydau? Does neb yn deall yn well. Mae fy mhlant yn fy addysgu i drwy'r celfyddydau. Mae mamau'n dueddol o ymgysylltu mwy â'r celfyddydau. Tymor hir. Newid rhwng y cenedlaethau. Trawsnewidiol i rieni a chymunedau. Eisiau, disgwyl pethau i'w plant. Dyhead."
>
> "Gan fod gan lawer o fyfyrwyr sylfaen mewn disgyblaethau creadigol, sut gallwn greu llwybrau o ansawdd y tu hwnt i addysg."

Mae hyn yn awgrymu **y bydd angen dod hyd i ffyrdd newydd i gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ifainc**:

> "Platfformau i gyrraedd pobl ifainc? Enghraifft, y Blaid Lafur yn cyrraedd pobl ifainc ac yn cyfathrebu â hwy. Sut gall y celfyddydau ddatblygu platfform i gyrraedd a chyfathrebu?"

“Caiff plant yn aml eu cymell i beidio â phrofi’r celfyddydau gan eu rhieni/teuluoedd. Cyflawni ar lefel / amodau addas y gallant eu deall, nid rhywbeth bwrgeisaidd mewn oriel. Nid celf yw’r mater pwysicaf i’r rhai llai ffodus. Mae celf yn ymwneud â newid cymdeithasol. Perthyn.”

“Apeliwch at yr YouTubewyr!”

“Pobl ifainc neu aelodau’r gymuned yn greiddiol i gynllunio?”

“Sefydliadau’r celfyddydau / Cyngor Celfyddydau Cymru mewn nosweithiau gyrfaoedd”

Ond efallai mai’r thema gryfaf a ddaeth i’r amlwg o’r sgyrsiau oedd pwysigrwydd **sicrhau y caiff pobl ifainc brofiad dilys, o ansawdd uchel, o’r celfyddydau**. Ond roedd hyn wedi’i gydbwyso gan deimlad bod **diffyg apêl gan lawer o’r celfyddydau prif ffrwd i bobl ifainc, neu nad oeddynt yn berthnasol iddynt** ac i’r ffurfiau a’r dulliau yr oeddynt yn eu gwerthfawrogi’n benodol neu eisiau bod yn rhan ohonynt:

“Rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau, camau cychwynnol, plant yn dysgu creadigrwydd drwy ddull y celfyddydau.”

“Peidio â lleihau’r celfyddydau, symleiddio, ond dod o hyd i’r ‘lle’, y ‘gofod’, i ymgyrraedd ac ymgysylltu.”

“Mewn mannau eraill, defnyddiwyd cyfranogiad i greu newid cymdeithasol. Ond mae hyn yn colli’r elfen o gelf er budd celf – rydych yn colli artistiaid profiadol ac a yw cynulleidfaoedd yn dal i gael y profiad celf sylfaenol? Mae rhaglen Ysgolion Creadigol yn rhoi hwb i werthfawrogiad pobl ifainc o’r celfyddydau i roi archwaeth iddynt am y profiad celf sylfaenol.”

“Sicrhau bod y celfyddydau wedi’u hymwreiddio mewn addysg.”

“Ar hyn o bryd, nid yw’r celfyddydau’n cymryd risg.”

“Mae llawer o fyd y theatr yn glynu wrth yr hyn sy’n gyfarwydd iddynt, ond nid theatr yn unig.”

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth am **wahaniaethau daearyddol ar draws Cymru**:

"Mae hollt gogledd / de yng Nghymru (a rhywfaint o hollt gorllewin / dwyrain). Mae hyn yn rhannol am fod Caerdydd yn drech o ran adnoddau. Mae pobl ifainc mewn gwahanol rannau o Gymru eisiau cydweithio'n agosach."

"Mae'r mynediad cyfyngedig sydd gan bobl ifainc i drafnidiaeth yn broblem fawr – mae hyn yn gwaethygu'r sefyllfa lle ystyrir bod cyllid yn cael ei ganolbwyntio mewn lleoedd penodol neu sefydliadau penodol (ac nid rhai ieuenctid)."

Cafwyd llawer o drafodaeth am **waith Cymraeg a dwyieithog**, yn arbennig theatr, ond hefyd llenyddiaeth, a mynegwyd barn eang iawn:

"Hoffwn ragor o bethau dwyieithog. Nid yw pawb yn siarad Cymraeg. Mae'n bwysig ein bod yn diogelu'r iaith."

"Mae angen i waith yn y Gymraeg deithio i leoedd eraill."

"Dylai fod modd i ragor o gwmnïau ddefnyddio apiau cyfieithu."

Ystyriwyd bod **rhoi'r droed gyntaf ar yr ysgol** yn fater pwysig:

"Mae cam mawr rhwng graddio a dechrau gweithio fel artist. Mae'r camau cyntaf yn anodd iawn. Hyd yn oed pan fo cymorth ar gael, mae pobl ifainc yn teimlo bod gofyn amdano yn frawychus."

"Mae'n anodd iawn mynd o fod yn amatur i fod yn broffesiynol."

"Mae'n bwysig y caiff pobl newydd gyfle, nid artistiaid sydd wedi ennill eu plwyf yn unig."

Yn aml, mater o **fenter bersonol** ydyw:

"Mae arnom angen mwy o gyswllt rhwng pobl heb brofiad a gweithwyr proffesiynol. Hoffwn weld sut mae pobl yn gweithio yn y celfyddydau cyn penderfynu mynd amdani; rhoddwyd cyfle i mi gan xxx."

"Cefais hi'n anodd iawn mynd o gefndir yr Eisteddfod i fyd theatr."

"O fy mhen a fy mhastwn fy hun, mi wnes i'r cyfleoedd i weithio gyda chwmnïau [ffilm] annibynnol. Mae'n rhaid ichi fynd i mewn fel unigolyn."

"Mae'n rhaid ichi eich gwthio eich hun."

Roedd awydd angerddol i **barhau â'r sgyrsiau, a pharhau i edrych am gyfleoedd**:

"Cyfrifoldeb pwy yw gwneud i hyn ddigwydd? Ein cyfrifoldeb ni. Mae'n rhaid i ni ein trefnu ein hunain."

"Mae angen inni oll gymryd perchnogaeth."

"Mae digwyddiadau fel hyn [Sgyrsiau Creadigol] yn helpu."

## 4. Annog Rhwydweithio a Chreu Cysylltiadau

Clywsom lawer bod hyn yn cael ei ystyried yn rhywbeth sydd angen ei annog yn y dyfodol. Mae angen mwy o hyn.

Mae artistiaid wedi'u hynysu yn y modd y maent yn gweithio. Mae gan Gymru ei heriau yn ogystal â'i manteision yn ei ffurf ffisegol fel gwlad. Ond petai rhagor o gyfleoedd i gyd-ddysgu, rhannu arferion gorau a defnyddio rhwydweithiau, teimlwyd y byddai hyn yn cryfhau'r celfyddydau.

### Beth ddwedodd pobl: "…"

Mae pobl yn gwerthfawrogi **cyfleoedd i ddod at ei gilydd**:

> "Grym rhwydweithiau i gynnal cynaliadwyedd – a allech sbarduno rhwydwaith neu hwyluso datblygu rhwydwaith? Mae pobl yn hoff o wneud cysylltiadau. Bodolaeth go unig, yn arbennig i artistiaid unigol."
>
> "Cyfathrebu gwaith er mwyn ysbrydoli sefydliadau eraill. Rhannu ar draws sectorau...Dysgu drwy werthuso a rhannu. Rhannu methiant er mwyn cyfarwyddo prosiectau a sefydliadau eraill."
>
> "Bod yn agored – rhannu arferion gorau."
>
> "Mae rhwydweithiau'n bwysig iawn er mwyn cael safbwynt cynulleidfa mewn ffordd systematig. Edrych ar brosiectau blaenorol, cyllido torfol, unrhyw ffyrdd i brofi cynulleidfaoedd."

Felly nid manteision cydweithio oedd y mater allweddol, ond **darganfod sut i gysylltu'n fwy effeithiol** (pwnc a oedd yn dueddol o godi rhagor o gwestiynau nag atebion):

> "Sut i gysylltu darpar 'gydweithwyr' prosiect?"
>
> "Diffyg ymwybyddiaeth o bartneriaid a sefydliadau'r tu allan i Gaerdydd."

"Defnyddio'r cyfleoedd a ddaw o ddatblygu rhwydwaith y Dinas-ranbarthau i feithrin mwy o gyswllt rhwng sefydliadau celfyddydol cenedlaethol/rhanbarthol a lleol."

"Pam fod cymuned yn air ar wahân yn y celfyddydau? Os ydym bob amser yn rhoi cymuned a phroffesiynol ar wahân, a ydym yn creu hollt ac yn ein tanwerthu ein hunain (artistiaid lleol)?"

"Gallwn adeiladu rhwydweithiau fel artistiaid. Gallwn greu celf yng nghartrefi pobl. Cysylltu â'n gilydd."

"Sut i gysylltu'n fewnol yn fasnachol, â chymhorthdal a chymunedol/gwirfoddol? Ac ar raddfa drwy integreiddio ac yn weledol?"

Awgrymodd y diffyg cynigion neu syniadau cadarn **y gallai rhwydweithio a chydweithio fod yn feysydd lle gallai fod yn ddefnyddiol i Gyngor y Celfyddydau arwain**:

"Nid yw awdurdodau lleol yn manteisio'n llawn ar y cyfle y mae'r celfyddydau yn ei gynrychioli – pam? Anwybodaeth neu ddiffyg dyhead yn gyffredinol?"

"Sut mae'r sector diwylliannol yn arwain y ffordd wrth annog awdurdodau lleol i gydweithredu / cydweithio? Mae'n sgil cryf yn y sector creadigol."

"Mae'n bwysig cipio a rhannu gwybodaeth – drwy rwydweithiau a digwyddiadau a hefyd ffyrdd newydd i Gyngor Celfyddydau Cymru ac eraill weithio. E.e. rhoi'r awenau dros rannau o'ch gwefan yn nwylo sefydliadau eraill bob wythnos er mwyn iddynt bostio / rhannu astudiaethau achos / syniadau ac ati."

"Creu diwylliant o ymgysylltu a bod yn ymwybodol o ddata."

"Rhannu modelau'r ffyrdd mae pobl yn gweithio ac ysbrydoli eraill."

"Sut ydym yn rhwydweithio'n ehangach ym Mhrydain ac yn rhyngwladol?"

“Er mwyn ehangu cyrhaeddiad, mae angen codi pontydd i feysydd diwylliannol eraill, yn arbennig gwyddoniaeth a chwaraeon. Dylai Cyngor y Celfyddydau arwain ar ymestyn allan at y meysydd eraill hyn er mwyn hyrwyddo mwy o gydweithio, rhannu cynulleidfaoedd. Sgiliau creadigol yw'r peth allweddol.”

## 5. Creu Llwybrau

Ble mae angen inni ganolbwyntio cymorth, yn arbennig i artistiaid mewn gwahanol ddisgyblaethau? Beth yw rôl ein sefydliadau celfyddydol o ran meithrin gallu yn y celfyddydau a helpu i greu amgylchedd a all feithrin doniau artistig drwy wahanol gamau gyrfa?

### Beth ddwedodd pobl: "…"

I ddatblygu'r gelf orau a mwyaf arloesol, mae angen **ffyrdd effeithiol i nodi a meithrin doniau**:

> "A ydym yn nodi a meithrin yn effeithiol?"
>
> "Bod yn sgowtiaid doniau, allan yn y maes yn canfod/nodi doniau."
>
> "Ymarferwyr creadigol – dosbarthiadau rheolaidd – hyfforddiant – a yw hyn yn digwydd er mwyn creu gwir greadigrwydd? – pam fod techneg yn bwysig?"
>
> "Mwy o fentora lle mae'r iau a'r aeddfed yn cydweithio a chyd-fentora."
>
> "Cyngor Celfyddydau Cymru i fabwysiadu model World Wrestling Entertainment i gynorthwyo a meithrin doniau ifanc, drwy garfan o gynghorwyr / cynorthwywyr – caffi datblygu sy'n rhoi arweiniad ar beth i'w ystyried er mwyn gwireddu uchelgeisiau.
>
> I artistiaid addawol, mae rôl y cynhyrchydd yn bwysig. Dylai cynhyrchwyr fod yn fwy cyfunol, yn llai annibynnol. A oes proses rheoli ansawdd yn ei lle ar gyfer meithrin, a beth ydyw?

Awgrymodd nifer o bobl y gallai **sefydliadau a ariennir wneud rhagor i gefnogi a meithrin artistiaid unigol**:

> "Angen i hyfforddiant, mentora, prentisiaethau fod wedi'u hymwreiddio mwy, yn greiddiol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru."

> “Dylai cael grant sefydliadol hefyd olygu Rhwymedigaeth i fentora, agor cyfleoedd i eraill a blaenoriaethu cydraddoldeb er mwyn symud ymlaen yn hyn o beth.”

Dwedwyd wrthym dro ar ôl tro bod **angen cymorth ar weithwyr creadigol proffesiynol i’w galluogi i adeiladu gyrfaoedd sy’n gynaliadwy’n ariannol**:

> “Creu gwell cyngor gyrfa ynghylch cyfleoedd yn y celfyddydau e.e. gwaith coed – yr holl swyddi ym maes teledu, nid cynhyrchwyr, cyfarwydd, actorion yn unig.”
>
> “Sicrhau llwybrau gyrfa, cyfleoedd i ddatblygu.”
>
> “Mae’n bwysig bod pobl newydd yn cael cyfle, nid artistiaid sydd wedi ennill eu plwyf yn unig.”
>
> “Hyfforddiant busnes i weithwyr llawrydd newydd.”
>
> “Rhwydweithio a chyfleoedd gwybodaeth – digidol? Cyfeiriaduron ar-lein?”
>
> “Mae’n rhaid i rywbeth strategol ddigwydd – e.e. cynllun CAT yn Lloegr; cynnig cyfleoedd a lle i feddwl ar y cyd; darparu hyfforddiant ar bob lefel i safon broffesiynol.”
>
> “Er mwyn cael gwaith cymunedol sy’n ymgysylltu’n wleidyddol, gwaith celf ingol, a sectorau creadigol effeithiol, mae’n rhaid inni feddwl am y bobl sy’n gweithio ynddo fel rhai sy’n haeddu cymhellion priodol: cyflogau, undebau, sicrwydd, fel bod modd iddynt roi’r gorau i boeni am y contract llawrydd nesaf a bwrw ymlaen.”

Yn gysylltiedig â hyn, plediwyd yn gryf **y dylai polisïau a phrosesau ariannu annog gweithwyr creadigol proffesiynol, nid eu rhwystro**:

> “Sut mae newid ymddygiad o ran gweithio ar draws ffiniau – cyllid wedi’i dargedu ar gyfer cydweithio, efallai.”
>
> “Strwythurau cyllido – rhy fyrdymor; mae perthnasoedd yn cymryd amser.”

“Mae’r system gyllido wedi’i llunio ar gyfer y cynnyrch terfynol yn hytrach na’r broses – mwy diriaethol, haws mesur y canlyniad terfynol.”

“Weithiau, y broses, nid y cynnyrch terfynol, yw’r rheswm dros gynnal prosiect. Y pethau eraill sy’n digwydd. Wrth gychwyn ar brosiect, nid ydych o anghenraid yn gwybod beth fydd yn digwydd. Mae angen potiau gwahanol o arian arnoch ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau.”

“Mae angen i Gyngor Celfyddydau Cymru gael mwy o hyder i wneud penderfyniadau heb gadarnhad y sector (llythyron o gefnogaeth).”

“Posibilrwydd o grantiau bach, syml i grwpiau cymunedol ymgeisio amdanynt. Weithiau nid yw artistiaid na chymunedau’n teimlo’n gymwys i ymgeisio, nid yn ddigon swyddogol.”

“Mentora, cefnogi graddedigion newydd? Mae Cyngor Celfyddydau Cymru’n anwybyddu’r graddedigion. Faint sy’n parhau yn y celfyddydau ar ôl bod i’r brifysgol neu’r coleg? Faint ydyn ni’n eu colli ar hyd o ffordd yn sgil diffyg cefnogaeth?”

“Symleiddio’r broses, gwahanol ddulliau. Ansawdd yn gyntaf, cynulleidfaoedd, i bwy nesaf. Nid sgil llenwi ffurflen gais. Angen cysondeb o ran gwybodaeth, cyngor, cyfathrebu, adborth. Os yn aflwyddiannus, adborth clir a chyson.”

“Mentora a hyfforddiant ar sut i ymgeisio, beth sy’n gwneud cais da.”

“Mae’n rhaid ichi fod ‘ymhlith y rhai sy’n gwybod’ sut i gael arian yn y celfyddydau, mae’r systemau’n anodd ac nid ydynt yn dryloyw. Beth am:

- Fentoriaid / eiriolwyr rhwng yr Artistiaid a Chyngor y Celfyddydau
- Cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar ieuenctid
- Mwy o farchnata wedi’i dargedu

“Caiff celf sydd wedi’i chyllido ei hystyried yn elitaidd. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru’n deall y celfyddydau ‘llawr gwlad’, trefol.

“Mae angen ‘rhuglder diwylliannol’ arnoch er mwyn cael mynediad at weithgarwch celfyddydol. Pam?”

“Meithrin cyfleoedd, gweithio’n rhyngwladol, cyfleoedd preswyl i gyfoethogi, datblygu gwaith, gan arwain at waith mwy cynaliadwy.”

“Cyllid wedi’i dargedu at artistiaid addawol.”

“Artistiaid yng nghanol eu gyrfa, sy’n datblygu, ble mae’r cyfleoedd i ddangos gwaith, a’r celfyddydau gweledol yn benodol? Angen sicrhau bod llwybrau gyrfa, cyfleoedd datblygu.”

## 6. Adnewyddu ac ailfywiogi – bod yn agored o'r newydd

Y mae galw ar i Gyngor y Celfyddydau, a'n sefydliadau celfyddydol yn ehangach, edrych o ddifri ar ba mor agored ydynt. A beth allai fod yn rhwystr i fod yn agored?

Beth allwn edrych arno'n ymwybodol mewn ffyrdd bach a mawr a fyddai'n gwella'n barhaus y synnwyr hwn bod y celfyddydau ar gael?

### Beth ddwedodd pobl: "...."

Cynigwyd amrywiaeth eang iawn o awgrymiadau a ategai'r teimlad **bod ar bobl eisiau i'r sector edrych ac ymddwyn yn wahanol**:

> "Beth am 'gaffi' i'r rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf i Gyngor Celfyddydau Cymru? Nodi'r rhwystrau / canfyddiad.... "
>
> "Mater y trothwy."
>
> "Canfyddiad o sefydliadau – sut i wneud adeilad fod yn fwy croesawgar."
>
> "Mae cynulleidfaoedd eisiau eu hadnabod eu hunain mewn profiadau celf."
>
> "Rhagoriaeth ym mlaen y tŷ."
>
> "Mwy o dryloywder mewn lleoliadau; hynny yw, gallwch weld i mewn i'r swyddfeydd."
>
> "Mae ymddiriedaeth yn fater enfawr – mae angen ichi gael synnwyr o fod yn agored. O'r gynulleidfa i'r lleoliad. Mae pobl yn credu mewn pobl, nid adeiladau. Mae angen ichi werthfawrogi'r mynegiant creadigol yn y celfyddydau yn gyntaf er mwyn bod eisiau mynd ac ymgysylltu."
>
> "Addasu ein ffordd o feddwl - modelau newydd yn hytrach na modelau sefydliedig ...Aneffeithlonrwydd."

"Buddsoddi amser mewn gweithio mewn partneriaeth ...a phobl wedyn yn symud yn sgil cyllido."

"Mae adeilad gallu yn hollbwysig."

# Atodiad

## Sgwrs Greadigol i Gymru Gyfan – amserlen y cyfarfodydd

### Asiantau Creadigol a Chynghorwyr Creadigol
10 Tachwedd 2017
55 o gyfranogwyr

### Caerfyrddin - Sgwrs Greadigol
15 Tachwedd 2017
31 o gyfranogwyr

### Glyn Ebwy - Sgwrs Greadigol
16 Tachwedd 2017
30 o gyfranogwyr

### Casnewydd - Sgwrs Greadigol
17 Tachwedd 2017
44 o gyfranogwyr

### Caernarfon - Sgwrs Greadigol
20 Tachwedd 2017
21 o gyfranogwyr

### Beth Nesaf? Sgwrs Greadigol Caerdydd a'r Cymoedd
28 Tachwedd 2017
36 o gyfranogwyr

### Sgwrs Greadigol – Digwyddiad Cyhoeddus yng Nghaerdydd
8 Chwefror 2018
73 o gyfranogwyr

## Sgwrs Greadigol i Gymru Gyfan - Wrecsam - Asiantau Creadigol a Chynghorwyr Cenedlaethol

15 Chwefror 2018
11 o gyfranogwyr

## Pobl Ifainc - Sgwrs Greadigol, Caerdydd

15 Chwefror 2018

28 o gyfranogwyr

## Wrecsam - Sgwrs Greadigol - Digwyddiad Cyhoeddus

15 Chwefror 2018
49 o gyfranogwyr


## Pobl Ifainc - Sgwrs Greadigol, Bangor

20 Chwefror 2018
34 o gyfranogwyr


## Cyfanswm o 435 mewn 12 digwyddiad

# Atodiad 2
## Sgyrsiau Creadigol – Monitro Cydraddoldeb


Iaith yr ymatebion – digwyddiadau





Iaith yr ymatebion – arolwg ar-lein




Rhywedd – digwyddiadau





Rhywedd – arolwg ar-lein




Oed – digwyddiadau





Oed – arolwg ar-lein




Statws perthynas – digwyddiadau





Statws perthynas – arolwg ar-lein




Cyfeiriadedd rhywiol - digwyddiadau





Cyfeiriadedd rhywiol – arolwg ar-lein




Crefydd/cred – digwyddiadau





Crefydd/cred – arolwg ar-lein




Ethnigrwydd – digwyddiadau





Ethnigrwydd – arolwg ar-lein




Cenedligrwydd - digwyddiadau




Cenedligrwydd – arolwg ar-lein



Anabledd - digwyddiadau




Anabledd – arolwg ar-lein

